CO19206 Creigiau (Tynnu Rhwystrau Culhau'r Ffordd)

Adroddiad yr Ymgynghoriad

Ebrill 2021

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gael gwared ar dri rhwystr culhau'r ffordd presennol ar hyd Heol Creigiau, Tynant Road a Ffordd Caerdydd. Cynigir tynnu'r rhwystrau hyn a rhoi mesurau arafu traffig amgen yn eu lle ar hyd y llwybr hwn. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Chwefror 2021 a 5 Mawrth 2021.

Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgynghoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cafwyd 11 o ymatebion unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn fel a ganlyn:

O Blaid - 6

Cefnogi'n rhannol - 1

Aneglur - 1

Yn Erbyn - 3

Sylwadau Cefnogol

Croesawodd nifer o drigolion y newidiadau arfaethedig, gan ddweud y byddai'r cynnig yn lleihau cyflymder cerbydau ac yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel croesi'r ffordd.

Materion Penodol

Mae materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod gydag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mater	Ymateb
Pryderon y bydd cael gwared ar y rhwystrau culhau yn galluogi ceir i fynd yn gyflymach, ni waeth beth y bo'r terfyn cyflymder, ac os bydd y ffyrdd yn cael eu llydanu, bydd cerbydau'n gyrru'n gyflymach ac	Ar hyn o bryd yr unig beth mae cerbydau sy'n teithio trwy'r rhwystrau culhau ffordd yn gorfod ei wneud yw arafu neu stopio pan fo cerbydau yn teithio tuag atynt o'r cyfeiriad arall.

efallai na fyddant yn stopio wrth y groesfan sebra.	Felly, pan fo cerbydau'n teithio trwy'r rhwystrau culhau hyn, gallant barhau ar hyd y llwybr heb arafu os nad oes cerbydau yn dod tuag atynt o'r cyfeiriad arall. Trwy gyflwyno byrddau arafu, bydd yn sicrhau bod cerbydau sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad yn gorfod arafu, ni waeth a oes cerbydau'n teithio o'r cyfeiriad arall neu beidio.
Roedd preswylwyr yn pryderu y byddai cyflwyno croesfan sebra yn cael gwared ar yr holl leoedd parcio sydd ar gael ar y stryd ger eu heiddo.	Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig lleihau hyd y marciau ffordd igam-ogam. O dan y cynnig hwn, bydd hyn yn osgoi lleihau lle parcio cymaint â phosibl (*gweler y cynllun atodedig*).
Codwyd pryderon ynghylch llygredd golau a fyddai'n cael eu hachosi gan y goleuadau croesi'n fflachio	Gan y byddai'r goleuadau croesi'n agos at eiddo preswyl, caiff gorchuddion eu gosod ar y goleuadau croesi arfaethedig. Gorchuddion yw'r rhain a fydd yn mynd o gwmpas y goleuadau croesi a chyfyngu ar y golau sy'n ymledu i eiddo cyfagos. Nid ydynt yn cyfyngu ar amlygrwydd y goleuadau i yrwyr sy'n gyrru tuag at y lleoliad croesi.
Gofynnodd nifer o drigolion i'r terfyn cyflymder yng Nghreigiau gael ei ostwng i 20 mya.	Mae cyflwyno cyfyngiad cyflymder 20 mya ar draws Creigiau eisoes yn cael ei ddatblygu fel rhan o brosiect ar wahân. Mae'r cyfyngiad cyflymder 20 mya newydd yn cael ei gyflwyno ar y safle ar hyn o bryd.
A allai'r cyngor ystyried mabwysiadu system unffordd trwy'r pentref?	Byddai cyfyngiad unffordd trwy'r pentref yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyflymder cerbydau ar y ffordd. Byddai gyrwyr yn gwybod na fydd cerbydau'n dod o'r cyfeiriad arall a gallai eu cyflymder gynyddu gan na fyddai'n rhaid iddynt yrru mwyach gan ddisgwyl modurwyr yn gyrru tuag atynt ac felly ni fyddai hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y lleoliad hwn.
A ellir cyflwyno camerâu cyflymder cyfartalog? Mae'n annhebygol y bydd ceir yn cadw at 20 neu 30 mya	Gweithredir camerâu cyflymder gan Bartneriaeth Lleihau Anafiadau Cymru (sef GanBwyll www.gosafe.org) ac fe'u darperir fel y nodir yn y ddogfen Meini Prawf Safleoedd* a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Llywodraeth Cymru. Dim ond mewn un o dri amgylchiad y gellir defnyddio camerâu: lle mae pobl wedi cael eu lladd neu eu hanafu; mewn safleoedd sy'n peri pryder i'r gymuned ac mae arolwg yn cadarnhau bod problem wirioneddol o ran goryrru; ac fel rhan o weithrediadau arbennig, megis gwaith ffordd ac ymgyrchoedd addysgol. Nid yw'r lleoliad hwn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer camera diogelwch, ond gall y cyhoedd gofrestru eu pryderon ar safle GanBwyll o dan Cysylltwch â ni > Pryderon Cymunedol ac yna bydd GanBwyll yn ymchwilio i'r mater ac, os yw'n briodol,

	yn cymryd camau gorfodi. *https://gosafe.org/calibration-certifcates/where-we-place-cameras/?lang=cy
Soniodd preswylydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol iawn rhoi croesfan sebra ar Ffordd Caerdydd ger cyffordd Parc-y-Coed.	Rydym yn deall eich pryderon a byddwn yn ychwanegu'r lleoliad hwn at ein cronfa data Ardal sy'n Peri Pryder. Caiff hyn ei adolygu a'i ystyried os bydd problemau diogelwch ar y ffyrdd yn codi gerllaw, neu y bydd cyllid amgen ar gael.
Awgrymodd un preswylydd y byddai'n well gosod y groesfan sebra arfaethedig ar Ffordd Caerdydd yn nes at Tesco Express.	Cynhaliwyd arolygon cerddwyr yn lleoliad y rhwystrau culhau ffordd presennol ar Heol Creigiau ger cyffordd Tynant Road i asesu symudiadau cerddwyr. Cofnododd yr arolwg symudiadau cerddwyr yn ystod oriau brig y bore, amser ysgol y prynhawn a hefyd amser brig gyda'r nos. Cofnododd yr arolwg hwn gyfanswm o 262 o symudiadau cerddwyr ar draws y groesfan bresennol hon (i'r ddau gyfeiriad). Felly, mae hyn yn dangos bod galw mawr am gyfleuster croesi i gerddwyr yn y lleoliad hwn, ni waeth a yw'r rhan fwyaf o'r symudiadau yn gysylltiedig â'r ysgol ai peidio.
Rhoddodd preswylydd adborth am weithrediad y Cynllun Strydoedd Ysgol yn Tregarth Close.	Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hanfon at y tîm sy'n gweithredu'r prosiect Strydoedd Ysgol i'w hystyried.
Mynegwyd pryderon am y croesfannau sebra, ac y gallai plant feddwl bod ganddynt yr hawl tramwy a'i gymryd yn ganiataol y bydd y ceir yn stopio. Gwnaed cais i osod croesfannau pâl, yn hytrach na chroesfannau sebra.	Cynhaliwyd asesiad o ddiogelwch cymharol croesfannau sebra yn erbyn croesfannau a reolir gan signalau (h.y. pâl, pelican, twcan) yng Nghaerdydd. Nododd yr asesiad nad oes achos amlwg dros gredu bod un math o groesfan yn fwy diogel na'r llall, o ran amlder gwrthdrawiadau neu pa mor ddifrifol ydynt. Mewn llawer o leoliadau ac o dan amodau llif traffig a cherddwyr priodol, mae croesfannau sebra yn briodol ac mae ganddynt y fantais eu bod yn rhoi blaenoriaeth bob amser i gerddwyr dros gerbydau. Fel y nodwyd yn Rheolau'r Ffordd Fawr, dylai cerddwyr aros nes bod traffig wedi stopio cyn defnyddio unrhyw groesfan ac mae hyn yn berthnasol i groesfannau pâl neu yn wir unrhyw groesfan arall a reolir gan signalau. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau lle mae gyrwyr wedi methu â stopio pan oedd y golau'n goch wrth groesfannau ac mae'r risg o wrthdrawiad o ganlyniad yn uwch, gan fod cerddwyr yn tueddu i roi llai o sylw i draffig gan eu bod yn ymddiried yn y signalau 'dyn gwyrdd'. Darperir hyfforddiant addysg diogelwch ar y ffyrdd ychwanegol yn yr ysgol gynradd fel rhan o'n haddysg a'n hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd parhaus.

Mynegwyd pryderon ynghylch defnyddio'r twmpathau ffordd; nid oes angen byrddau gyda chyfyngiad cyflymder 20 mya.	Er mwyn cynnig taith esmwyth i deithwyr bysus, caiff y rampiau hyn eu cynllunio â goleddf o 1 mewn 16, gyda lleiafswm pellter o chwe metr rhwng dechrau a diwedd y byrddau, na ddylai felly beri difrod i gerbydau os eir drostynt ar gyflymder addas. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd wyneb ffordd gwell ar y twmpath ei hun ac ar yr ardal yn union o'i flaen ac ar ei ôl er mwyn lleihau unrhyw newid i'r proffil. Yn anffodus, un o'r unig ddulliau sydd gennym i arafu traffig yw trwy ddefnyddio twmpathau arafu. Mae twmpathau arafu'n addas ar gyfer y lleoliadau hyn er mwyn creu amgylchedd priffordd mwy diogel wrth y groesfan i gerddwyr.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig diwygiedig fel y dangosir ar y cynllun amgaeëdig.

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD

Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD